# Am y swydd

## UWCH SWYDDOG GWEITHREDOL

Mae hwn yn gyfle cyffrous i ymuno a thîm Uchelgais Gogledd Cymru, fel ein Uwch Swyddog Gweithredol byddwch yn chwarae rôl allweddol ar gyfer gwaith gweithredol Uchelgais Gogledd Cymru, er mwyn gweithredu fel Cyd-Bwyllgor Corfforedig. Mae'r swydd o fewn y tîm Gweithrediadau a Adnoddau sydd yn gyfrifol am ddarparu cefnogaeth weithredol ar draws tîm Uchelgais Gogledd Cymru a'r portffolio eang o brosiectau. Byddwch yn gweithio gyda amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys partneriaid Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ynghyd a'r sector breifat.

Rydym yn chwilio am unigolyn hynod drefnus a gweithgar i ddarparu cefnogaeth weithredol ar gyfer y Swyddfa Rheoli Portffolio ac y Cyd Bwyllgor Corfforedig. Yn gyfrifol am reoli hyd at bump aelod o staff ac cydlynu adnoddau'r tîm a sicrhau ei bod yn cael ei dyrannu yn briodol i gefnogi cyflawni a gweithredu ar draws swyddogaethau'r tîm.

Gan arwain ar gydlynu cefnogaeth weithredol ar gyfer cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig a'i Is-Bwyllgorau, hynny drwy weithio'n effeithiol gyda tîm Gwasanaethau Democratiaeth. Bydd disgwyl i'r swyddog fod a llygaid am fanylder a chysondeb gan sicrhau ansawdd ar draws holl dogfennaeth y pwyllgorau.

Bydd y swyddog yn gyfrifol am arwain ar reoli holl systemau Uchelgais Gogledd Cymru. Mae'r systemau ar hyn o bryd yn cynnwys Sharepoint ar gyfer cadw dogfennau, Mewnrwyd, system reoli prosiect, system monitro ac adrodd ar fuddion a gwerth cymdeithasol. Bydd disgwyl i'r Uwch Swyddog Gweithredol arwain ar uchafu defnydd y systemau presennol, datblygu'r systemau yn bellach i gyrraedd ei llawn botensial ac adnabod unrhyw anghenion systemau pellach o fewn y tîm.

Bydd yr Uwch Swyddog Gweithredol yn cael ei ddynodi yn Swyddog Diogelu Data ar gyfer Uchelgais Gogledd Cymru, gyda disgwyliad i arwain ar gydlynu Rhyddid Gwybodaeth ac Rheoli Data.

Os ydych chi'n rhywun sy'n ffynnu mewn amgylchedd cyflym, sy'n gallu gweithio ar flaenoriaethau cystadleuol, ac yn ymfalchïo mewn galluogi timau i lwyddo, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

